# Dogfen Wybodaeth E.ON ar gyfer Cynllun ECO4 (gan gynnwys ECO4 Flex)

## Mae cynlluniau uwchraddio effeithlonrwydd ynni cartref ar gael AM DDIM[1] i **aelwydydd cymwys** trwy'r cynllun ECO4

Nod y Rhwymedigaeth Cwmni Ynni (ECO4) sy'n cael ei chefnogi gan y Llywodraeth yw helpu aelwydydd cymwys i osod atebion effeithlonrwydd ynni heb unrhyw gost i chi[1] a thrwy hynny lleihau biliau ynni a gwella cynhesrwydd cartrefi trigolion. Mae'r cynllun wedi'i ddiweddaru i'w wneud yn well nag erioed ar ei newydd wedd (ECO4) ac mae bellach wedi'i gynllunio i uwchraddio'r cartrefi mwyaf aneffeithlon trwy osod pecyn wedi'i deilwra[2] o ddiweddariadau gwresogi ac insiwleiddio, fydd yn gwella **sgôr Tystysgrif Perfformiad Ynni (TPY) eich cartref** (hyperddolen: https://www.gov.uk/find-energy-certificate).

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn gweithio gydag E.ON i helpu aelwydydd cymwys ym Mro Morgannwg. Bydd E.ON yn rheoli a chyflwyno'r cynllun, ond nid oes angen i chi fod yn gwsmer E.ON i wneud cais ac ni fydd angen i chi ddod yn gwsmer ynni E.ON. Os yn gymwys, bydd E.ON yn helpu trigolion i gael y cyllid i osod diweddariadau effeithlonrwydd ynni, cydlynu â chontractwyr achredig lleol a chenedlaethol i arolygu'r eiddo a gosod y diweddariadau a rhoi cymorth parhaus trwy gydol y broses.

### Pa ddiweddariadau effeithlonrwydd ynni sydd ar gael?

Os yn gymwys, bydd contractwyr E.ON yn cynnal arolwg manwl o'r eiddo er mwyn gweld pa ddiweddariadau fyddai'n addas i'r cartref. Yna byddant yn cynnig pecyn wedi'i deilwra[2] o welliannau gwresogi ac insiwleiddio a allai helpu i wneud gwresogi'ch cartref yn rhatach ac yn haws ei redeg. Gallai trigolion elwa ar gyfuniad o'r diweddariadau effeithlonrwydd ynni canlynol:

- Inswleiddio waliau ceudod/solet
- Inswleiddio atig/o dan y llawr
- Pwmp gwres ffynhonnell aer system wresogi carbon isel
- Uwchraddio boeleri
- Ffotofoltäig Solar

### Pwy sy'n gymwys?

Er mwyn elwa ar y cynllun hwn, rhaid i drigolion fodloni'r meini prawf canlynol:

- Mae gan eich eiddo radd TPY o D, E, F, neu G (rhaid i'ch eiddo rhent fod â gradd E, F neu G) ac
- Rydych yn derbyn un neu fwy o fudd-daliadau sy'n dibynnu ar 'brawf modd', neu
- Rydych yn derbyn budd-dâl plant (mae trothwyon incwm yn berthnasol), neu
- Rydych yn gymwys yn unol â datganiad flex Awdurdod Lleol neu gyflenwr

Fe welwch ddolen i'r Datganiad o Fwriad y Cyngor ar dudalen we'r Cyngor ar Effeithlonrwydd Ynni Cartrefi.

### Sut i wneud cais

Fel ein partner cyflwyno, bydd E.ON yn eich tywys ar hyd y daith, o'r broses o wneud cais i'r gwaith gosod.

Gallwch wneud cais am yr arian am ddim trwy ffonio tîm E.ON ar **0333 202 4422**. Rydym ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener 9am i 5pm. Neu, gallwch anfon e-bost i dîm E.ON yn **eoncommunityprojects@eonenergy.com** gan gynnwys eich enw, eich cyfeiriad a'ch manylion cyswllt a bydd un o'r tîm mewn cysylltiad i drafod eich amgylchiadau.

E.ON yw'r Rheolwr Data ar gyfer y data personol a brosesir at ddibenion ECO4 ac ECO4 Flex ym Mro Morgannwg. Fodd bynnag, mewn rhai achosion (ECO4 Flex), efallai y bydd angen i Gyngor Bro Morgannwg brosesu data personol hefyd i gadarnhau cymhwysedd ymgeiswyr i E.ON.

Gweler dolenni i'r Hysbysiadau Preifatrwydd isod:

Hysbysiad Preifatrwydd E.ON (angen dolen)

E.ON: Our privacy policy | Using your personal data | E.ON (eonenergy.com)

Cyngor Bro Morgannwg: Hysbysiad Preifatrwydd Cyngor Bro Morgannwg

**Beth sy'n digwydd ar ôl gwneud cais?**

**Cymhwyso ar gyfer y cynllun -** Bydd E.ON yn penderfynu a ydych yn gymwys ar gyfer y cynllun ECO4 a bydd yn trefnu i chi gael arolwg cartref os ydych yn gymwys.

**Arolwg cartref am ddim** - Bydd E.ON yn trefnu dyddiad ac amser i gontractwr ymweld â'ch eiddo i benderfynu pa welliannau sy'n addas ar gyfer eich cartref. Byddant yn cynnig pecyn pwrpasol o uwchraddio ac nid oes gorfodaeth i fwrw ymlaen â'r argymhellion.

**Gosod -** Bydd y gwelliannau effeithlonrwydd ynni ar gyfer eich cartref yn cael eu gwneud gan gontractwyr achrededig E.ON.

**Ôl-ofal -** Bydd E.ON yn parhau i roi cymorth parhaus i chi. Bydd gwarantau a thelerau ac amodau yn cael eu darparu ar ôl cwblhau'r gosodiadau. **E.ON sy'n gwbl gyfrifol am y gwaith a'r gwasanaeth y darperir, nid yr Awdurdod Lleol.**

Y darn cyfreithiol

[1] Mae angen i bob cais fodloni meini prawf cymhwysedd ECO4 fel y nodir gan OFGEM a bydd yn destun arolwg cartref annibynnol am ddim. Bydd y mesurau yn rhad ac am ddim os cânt eu gosod yn unol â chwmpas safonol y gwaith.

[2] Bydd y cynnig o arian ECO4 yn destun pecyn wedi'i deilwra o welliannau y bydd eu hangen i wella sgôr TPY eich eiddo. Bydd y pecyn o fesurau i'w gosod yn cael ei amlygu i chi ar gyfer eich cytundeb cyn ei osod.